

# CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH - GWYBODAETH I'R TEULU

'Rydym yn gwybod bod ymweld â'r theatr neu'r sinema neu fynd i weld arddangosfa efo'r teulu yn golygu trefnu gofalus a thrylwyr! Felly 'rydym wedi paratoi taflen wybodaeth a all fod o gymorth i chi wrth baratoi ar gyfer eich ymweliad â Chanolfan y Celfyddydau. Os 'rydych yn meddwl bod y daflen o ddefnydd ond eich bod o'r farn y gellid ychwanegu rhagor o wybodaeth, gadewch i ni wybod a gwnawn ein gorau i'w haddasu. Gobeithir y bydd y canlynol yn help i chwi a'ch teulu gael y profiad gorau posibl yn y Ganolfan. Gobeithiwn eich gweld yn fuan!

## **BETH SY'N ADDAS AR GYFER PLANT? A ALLAF DDOD Â'M BABI?**

Ar gyfer ein sioeau teuluol byddwn yn hysbysebu'r oedran sy'n addas ar gyfer y sioe er mwyn eich helpu i benderfynu beth bydd y plant yn debygol o fwynhau. Cafwyd amrywiaeth hyfryd o sioeau dros y blynyddoedd diwethaf - yn amrywio o *Sooty* i fersiynau llwyfan o lyfrau poblogaidd i blant, yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd peidiwch ag anghofio ein bod yn dangos llawer o ffilmiau sy'n addas ar gyfer y teulu, gan gynnwys rhai mewn 3D sy'n lot o hwyl i bawb! Cynhelir y rhan fwyaf o'n sioeau teuluol ar brynhawn dydd Sul am 2.30pm, a cheisiwn sicrhau bod ffilmiau teuluol yn cael eu dangos yn y prynhawn yn ogystal â'r hwyr.

**Plant o dan 2 oed:** Caniateir plant yr oed yma i berfformiadau teulu/plant yn unig. Gall eich plentyn eistedd ar eich glin ac ni fydd angen tocyn ychwanegol. 'Rydym yn cynnig nifer cynyddol o ffilmiau 'Rhiant a Babi' yn ein sinema - gweler taflenni'r sinema am fanylion. Hefyd 'rydym yn cynnal ein 'Clwb 1-2-3' amser cinio bob dydd Gwener - sef sesiynau creadigol dwyieithog ar gyfer babis, plant bach a'u rhieni/gofalwyr. Gofynnir i chi beidio â mynychu perfformiadau eraill yn rhaglen y Ganolfan gyda phlant o dan 2 oed.

**Plant dros 2 oed:** Bydd angen prynu tocyn ar gyfer eich plentyn. Fe'ch cynghorir i holi wrth archebu beth yw'r oedran addas ar gyfer unrhyw sioe benodol.

**Yn unol â Chyfarwyddiadau Iechyd a Diogelwch, nid ydym yn eich argymhell i ddod â phlant cynradd ac iau i berfformiadau o gerddoriaeth fyw lle y defnyddir offer chwyddo sain.**

**Noder os gweler yn dda:** Gellir gofyn i chwi ymadael â'r awditoriwm os yw'ch plentyn yn aflonydd neu'n anhapus ac yn achosi trafferth i'r perfformwyr neu aelodau eraill o'r gynulleidfa. Gwnewch eich gorau i sicrhau bod y sioe yr ydych yn ei mynychu yn addas ar gyfer eich plentyn, a'ch bod chwi ac hwythau'n debygol o fwynhau'r gweithgaredd. Os ydych yn dymuno, gallwch archebu seddi ar ben y rhes, fel y gallwch fynd â'ch plentyn allan yn ddiraffferth os bydd angen gwneud hynny. Mae'r Ganolfan yn awyddus iawn i annog plant a phobl ifanc i brofi'r celfyddydau ac i fwynhau perfformiadau, ond gofynnir am eich cefnogaeth wrth geisio creu amgylchedd lle y gall yr hen a'r ifanc fwynhau perfformiadau heb ymyrraeth!

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, trafodwch eich problem efo staff y Swyddfa Docynnau wrth i chi archebu'ch tocynnau, neu efo'r Rheolwr Blaen Tŷ ar ddyletswydd adeg y perfformiad.

Peidiwch ag anghofio, mae gennym lawer o **ddosbarthiadau a gweithgareddau** ar gyfer plant ifanc yn ogystal â pherfformiadau - mae'r Ysgol Lwyfan yn cymryd plant o 5 oed (dosbarthiadau dydd Sadwrn), mae'r Ysgol Ddawns yn cymryd plant o 3 oed, a chynhelir hefyd ddsbarthiadau celf a chreffft cyffredinol ar gyfer plant ifanc, gan gynnwys sesiynau taro-heibio lle gall y teulu i gyd gymryd rhan. Gweler manylion am ein holl ddsbarthiadau yn ein llyfryn cyfredol neu ar ein gwefan.

Un o fanteision mawr holl **arddangosfeydd** y Ganolfan yw eu bod yn rhad ac am ddim! Mae croeso i deuluoedd ymweld â'r holl arddangosfeydd gydol y flwyddyn, ac mae 'na bob amser aelod o staff ar ddyletswydd yn Oriel 1 i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi neu'ch plentyn - hefyd ceir bwrdd mawr gyda gweithgareddau i blant i'w difyrru tra'ch bod chi'n edrych o gwmpas yr arddangosfa.

#### **RHIF FFÔN/GWEFAN I GAEL MANYLION YNGLYN Â'CH YMWELIAD YMLAEN LLAW**

01970 62 32 32      [www.aber.ac.uk/artscentre](http://www.aber.ac.uk/artscentre)

#### **TOCYNNAU**

Mae'n Swyddfa Docynnau ar agor bob dydd o 10am tan 8pm Dydd Llun tan Dydd Sadwrn ac 1.30pm - 5.30pm ar Ddydd Sul. Gallwch hefyd archebu tocynnau ar-lein unrhyw amser trwy ein gwefan [www.aber.ac.uk/artscentre](http://www.aber.ac.uk/artscentre)

Ceisiwn gadw pris y tocynnau ar gyfer gweithgareddau teuluol mor isel â phosibl. Os 'rydych yn trefnu ymweliad gan grŵp i ddathlu penblwydd eich plentyn gallwn weithiau trefnu gostyngiad yn y pris ar gyfer grwpiau sylweddol - mae'n werth holi bob tro!

#### **SUT I GYRRAEDD Y GANOLFAN, PARCIO A CHLUDIANT**

Lleolir Canolfan y Celfyddydau ar ganol campws y Brifysgol - trowch oddi ar yr A487 pan welwch yr arwyddion. Dilynwch ffordd y campws yr holl ffordd i fyny a byddwch yn cyrraedd y maes parcio cyhoeddus ac yn gweld mynedfa'r Ganolfan o'ch blaen.

Lleolir y maes parcio cyhoeddus cyferbyn â'r Ganolfan. Gellir parcio'n rhad ac am ddim ar ôl 5pm ac ar benwythnosau ond rhaid talu yn ystod y dydd yn yr wythnos. Ceir llwybr lefel o'r maes parcio hyd at fynedfa'r Ganolfan.

Ceir nifer o fysis sy'n dod i fyny i'r campws o'r dref gan gynnwys y gwasanaeth cylchol ac unrhyw wasanaethau sy'n cymryd y ffordd ogleddol allan o Aberystwyth. O fis Medi 2012 ceir gwasanaeth newydd yn rhedeg pob ugain munud o'r dref, i fyny heibio'r Llyfrgell Genedlaethol ac ymlaen i'r campws, ac hefyd bob awr min nos hyd at 10.30pm. I'r rhai sy'n byw 'n agos at orsaf drên yn y Borth neu

Fachynlleth, mae'n werth gwneud ymholiadau ynglyn ag amseroedd y trenau.

Gall tacsis eich gollwng reit wrth ymyl y brif fynedfa ger bwys y Swyddfa Docynnau – os oes gennych bram neu gadair gwnewch yn siwr eich bod yn gofyn i'r gyrrwr ddod â chi i fyny i'r fynedfa hon yn hytrach na'r stepiau wrth waelod y piazza.

Gwnewch yn siwr eich bod yn caniatáu digon o amser i chi'ch hun i gyrraedd y Ganolfan, i barcio ac i ddadlwytho - yn arbennig os 'rydych yn dod i weithgaredd megis cyngerdd ysgol yn y neuadd neu bantomeim yn y theatr pryd y bydd llawer o bobl eraill yn cyrraedd ar yr un pryd. Er mwyn minimeiddio ymyrraeth i gwsmeriaid eraill a pherfformwyr, os 'rydych yn cyrraedd ar ôl i'r sioe ddechrau, efallai y gofynnir i chwi aros nes ei bod yn amser priodol i fynd i fewn i'r awditoriwm (ac yn achos sioeau yn y stiwdio, efallai bydd yn rhaid i chwi aros tan yr egwyl). Ni roddir unrhyw ad-daliadau i gwsmeriaid sy'n methu rhan o'r perfformiad oherwydd eu bod yn hwyr. Felly dewch mewn da bryd fel y gallwch ymlacio a mwynhau'r sioe i'r eithaf!

### **BETH I WNEUD PAN 'RYDYCH YN CYRRAEDD**

Gallwch gasglu eich tocynnau yn y Swyddfa Docynnau, a leolir ger bwys y brif fynedfa trwy'r drysau gwydr.

Wedyn byddwch yn nwylo galluog ein tîm 'Blaen Tŷ'. Mae 'na bob amser aelod o'r tîm ar ddyletswydd yn ystod perfformiadau a gellir eu hadnabod gan eu bod fel arfer yn cydio mewn '*walky-talky*' ac yn sefyll yn y cyntedd yn cadw golwg ar bawb a phopeth! Maent yn edrych ar ôl ein tîm gwych o wirfoddolwyr sy'n cymryd eich tocynnau wrth i chwi fynd i fewn i'r theatr, y neuadd neu'r sinema. Os oes gennych unrhyw broblemau neu gwestiynau ar unrhyw amser, jyst holwch unrhyw aelod o'r staff neu un o'n gwirfoddolwyr a byddant yn gwneud popeth yn eu gallu i'ch helpu neu, os oes angen, yn gofyn i'r Rheolwraig Blaen Tŷ eich helpu.

Os am unrhyw reswm mae aelod o'ch teulu neu'ch grŵp yn mynd ar goll peidiwch â chynhyrfu! Gofelir am unrhyw blant sydd ar goll gan aelodau'n tîm Blaen Tŷ nes y deuir o hyd i'w teulu. Gallwn wneud cyhoeddiad ar y system uwchseinydd i helpu lleoli unrhyw aelod o'ch grŵp sydd wedi cael ei wahanu oddi wrth y gweddill.

### **TOILEDAU**

Mae 'na gyfleusterau newid babis mewn toiled arbennig ger bwys y Swyddfa Docynnau.

Ceir toiledau cyhoeddus ger bwys y Swyddfa Docynnau, yn y prif gyntedd ger bwys y caffis, ac ar y lefel uwch yng nghyntedd y theatr.

### **BWYD, DIOD A SIOPA**

Mae ein caffis a'n barrau poblogaidd yn gwerthu amrediad eang o de a choffi a digonedd o ddiodydd meddal, prydau poeth, saladau, brechedanau, cawl a dewis gwych o gacennau cartref (gydag opsiynau ar gael bob amser ar gyfer llysfwytawyr a feganiaid). 'Does dim angen archebu ymlaen llaw ac mae 'na groeso i bawb. Mae cadeiriau uchel ar gael yn y caffis a gallwn gynhesu bwydydd babis ar gais.

Ceir byrddau picnic y tu allan ar 'gwrt y capel' (y glaswellt ger bwys y brif fynedfa) sy'n lle poblogaidd i deuluoedd gan fod digon o le i redeg o gwmpas

Defnyddir byrddau'r caffi ar gyfer cwsmeriaid y caffi felly byddai'n well gennym os nad ydych yn eu defnyddio i fwyta eich bwyd eich hun - er nad oes ots gennym am ambell i gacen benblwydd! Pe hoffech archebu rhywbeth arbennig ar gyfer parti, neu sicrhau lle ar gyfer grŵp sylweddol, rhowch ganiad i reolwraig ein caffi, Joan, ar 01970 624301 neu reolwraig ein bar, Sarah, ar 01970 622992.

Mae ein Siop Lyfrau yn stocio amrediad o lyfrau i blant yn y Gymraeg a Saesneg a gallwn archebu unrhyw deitlau arbennig sydd eu hangen arnoch. Mae'r Siop Grefftau yn stocio amrywiaeth o anrhegion hyfryd ar gyfer plant ifanc.

#### **CYFLEUSTERAU AR GYFER YR ANABL**

Mae'r cyfleusterau yn cynnwys parcio ar gyfer pobl anabl, toiledau sy'n hawdd eu cyrraedd, mynediad lefel i'r swyddfa docynnau a'r prif gyntedd, gyda lifft i gyntedd y theatr. Mae llawer o'n ffilmiau yn cynnig is-deitlau a gwasanaeth awdio. Ceir Dolenni Clyw yn ein theatr a'n neuadd gyngerdd. Os oes gennych unrhyw ofynion penodol ynglyn â'ch ymweliad, ffoniwch y Ganolfan ar 01970 62 32 32.

#### **RHOWCH EICH BARN!**

'Rydym yn awyddus i wella ein gwasanaeth i chwi, felly gadewch i ni wybod os oes rhywbeth arall y gallwn wneud - y pethau bach sy'n gwneud y gwahaniaeth yn aml. Gallwch unai siarad efo aelod o'r staff yma yn ystod eich ymweliad neu e-bostiwch eich awgrymiadau at [lla@aber.ac.uk](mailto:lla@aber.ac.uk) / ffoniwch 01970 622889 ar ôl eich ymweliad. Trosglwyddir eich sylwadau i'r unigolyn neu'r adran briodol a gwnawn ein gorau i'ch helpu. Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad a'ch cymorth!